NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ublituximab ar gyfer trin sglerosis ymledol atglafychol

18 Rhagfyr 2024

Mae ublituximab (Briumvi) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol mewn oedolion, y cadarnhawyd ei fod yn weithredol drwy arwyddion clinigol neu arwyddion a ddelweddir.

Os nad ydych yn gymwys i gael ublituximab ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar sglerosis ymledol fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0800 800 8000
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 0800 032 3839

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9497-7